

## Anabledd Cymru

Corff aelodaeth cenedlaethol sy'n cynnwys grwpiau anabledd a chyrrff cymunedol ac eraill ar draws y wlad. Sefydlwyd yr elusen er mwyn brwydro dros "hawliau, cydraddoldeb ac annibyniaeth pob person anabl". Yn 2014 gweithiodd mewn partneriaeth â Chanolfan Cydweithredol Cymru i ddatblygu project Mentrau Cydweithredol dan Arweiniad Dinasyddion er mwyn ymchwilio sut allai mentrau cydweithredol dan arweiniad defnyddwyr ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth cymdeithasol.

Cyllidwyd y project gan grant arloesi Cronfa'r Loteri Fawr tan fis Mawrth 2018. Mae'n gweithio gyda grŵp o bobl anabl a'u cefnogwyr i sefydlu menter taliadau uniongyrchol i'w rheoli gan rai sy'n derbyn taliadau uniongyrchol. Mae'r grŵp wedi derbyn cyllid hael gan Gronfa'r Loteri Fawr i sefydlu'r busnes newydd.

Datblygwyd y project er mwyn ceisio cynyddu defnydd o daliadau uniongyrchol yng Nghymru, gyda'r nod o roi gwell dewis, hyblygrwydd a rheolaeth i bobl anabl dros y gwasanaethau byddant yn derbyn. Seilir y fenter ar fodel mentrau cydweithredol defnyddwyr sy'n golygu mai'r bobl yn defnyddio'r gwasanaethau fydd yn rheoli'r busnes.

Bydd y fenter gydweithredol newydd yn galluogi defnyddwyr taliadau uniongyrchol i brynu eu gwasanaethau cymorth gan fusnes maent yn gydberchnogion ohono. Nod y drefn newydd hon yw dileu rhai o'r rhwystrau rhag defnyddio taliadau uniongyrchol a helpu mwy o bobl i'w dewis fel opsiwn. Y drefn draddodiadol yw bod derbynwyr taliadau uniongyrchol yn cyflogi cynorthwydd personol eu hunain ac yn derbyn cyfrifoldebau cyflogwr. Ond o dan y drefn newydd, y fenter gydweithredol fydd yn cyflogi'r cynorthwydd personol, gan alluogi unigolion i fwynhau buddion taliadau uniongyrchol, megis hyblygrwydd a rheolaeth, ond heb gyfrifoldebau cyflogwr.

Mae Anabledd Cymru yn teimlo'n gyffrous iawn am y cyfleoedd i ddatblygu mentrau cydweithredol i reoli taliadau uniongyrchol er darparu

gwasanaethau gofal a chymorth cymdeithasol:

“Bydd project Mentrau Cydweithredol dan Arweiniad Dinasyddion yn symbylu trafodaeth am daliadau uniongyrchol ac yn hwyluso dewis, llais a rheolaeth gan bobl anabl ar draws y wlad.”

*Rhian Davies, prif weithredwraig Anabledd Cymru*

Y nod yw cael y fenter i ddechrau darparu gwasanaethau ar gyfer yr aelodau erbyn Ebrill 2017. Bydd Anabledd Cymru yn datblygu pecyn adnoddau er mwyn helpu mwy o grwpiau Cymreig i sefydlu busnesau tebyg.



[www.disabilitywales.org/projects/current-projects/citizen-directed-co-operative-cymru-project/](http://www.disabilitywales.org/projects/current-projects/citizen-directed-co-operative-cymru-project/)

### ● Jamboree Preservers Ltd, Malvern Hills

Menter gydweithredol a sefydlwyd yn 2009 gan weithwyr yn ardal Malvern Hills, Lloegr, yw Jamboree Preservers Ltd. Rhedir Jamboree gan ei aelodau, pob un ohonynt gydag anhawster dysgu. Dechreuodd y grŵp wrth gynhyrchu a gwerthu jam a phiclau mewn marchnadoedd fferm ac yn 2013 sefydlodd Café H2O yn Wyche Innovation Centre.

Mae'r aelodau yn derbyn taliadau uniongyrchol, gan brynu cymorth gan Debbie Probert a Kate Harding, sy'n helpu i redeg Jamboree. Fodd bynnag, mae ymuno â Jamboree yn wahanol i dderbyn gwasanaethau dydd traddodiadol oherwydd yr aelodau yw perchnogion y busnes. Fel



cyfranddeiliaid yn y busnes, byddant yn derbyn cyfran o'r elw ac yn helpu i redeg y busnes fel aelodau cydradd.

Roedd y model mentrau cydweithredol wedi apelio at y grŵp gwreiddiol oherwydd ei fod yn rhoi grym yn nwylo'r aelodau. Mae'r strwythur democrataidd wedi rhoi cyfle i aelodau Jamboree leisio barn, cymryd penderfyniadau a rheoli'r busnes ar y cyd. Yn aml, bydd pobl gydag anawsterau dysgu yn wynebu eithrio cymdeithasol, yn arbennig ym maes gwaith. Wrth sefydlu menter gweithwyr, mae aelodau Jamboree wedi gallu tacio'r rhwystrau hynny, gan ennill arian eu hunain wrth rannu elw'r busnes.

Roedd y newid o gynhyrchu a gwerthu cyffeithiau i redeg café yn dipyn o her i Jamboree oherwydd nid oedd unrhyw un o'r aelodau na'r cefnogwyr wedi cael profiad o arlwyo. Yn ogystal, dysgodd Jamboree Preservers Ltd fod system ble roedd pob aelod yn talu am gymorth wrth ddefnyddio taliadau uniongyrchol a chyllidebau unigol yn fwy effeithiol am ei fod yn ffordd hawdd o sicrhau y telir am yr holl gymorth angenrheidiol. Yn ôl Debbie Probert, sy'n cefnogi Jamboree, dylai unrhyw un sy'n ystyried sefydlu rhywbeth tebyg "fynd amdani!" Mae H2O Café yn Wyche Innovation Centre wedi profi'n boblogaidd iawn. O fewn ardal hynod y Malvern Hills mae'r café yn boblogaidd gyda thwristiaid ac yn croesawu llawer o gwsmeriaid rheolaidd sy'n gweithio yn yr ardal.

*"Mae pobl yn dal i ddod nôl. Dim angen dweud mwy!"*

*Debbie Probert*

Mae'r dull arloesol wedi galluogi'r aelodau i herio'r rhwystrau sy'n eu hwynebu a dod yn aelodau busnes llwyddiannus a chynladwy. Ac ar y ffordd, maent wedi cael lot o hwyl, dysgu sgiliau, gwneud ffrindiau newydd a gwella'u hyder yn gyffredinol.

## ● Cartrefi Cymru

Corff nid-er-elw a sefydlwyd yn 1989 gan grŵp o rieni a chefnogwyr. Y nod oedd helpu pobl anabl i fyw gartref o fewn eu cymunedau. Cartrefi Cymru yw'r 'elusen sy'n caru cydweithredu' ac yn hyrwyddo dull ar y cyd o ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth cymdeithasol.

Mae wedi cynnal peilot o'r dull yn ardal Aberhonddu gyda 'Gwasanaeth Cymorth Hyblyg', sy'n helpu pobl gydag anawsterau dysgu. Yn y gorffennol, darparwyd y gwasanaeth ar sail nifer penodol o oriau drwy gynlluniau gofal (yn aml bydd cynlluniau gofal 'top i lawr' fel hyn yn pennu

pa gymorth bydd person yn derbyn o ddydd i ddydd). Fodd bynnag, wrth ystyried y gostyngiad mewn cyllidebau adolygodd Cartrefi Cymru y sefyllfa er mabwysiadu egwyddorion a gwerthoedd cyd-gynhyrchu. Gyda chymorth tîm cefnogi pobl Cyngor Powys ac wrth gydweithio â phobl yn defnyddio eu gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill, penderfynodd ddarparu gwasanaethau ar sail trefn 'gwaelod i fyny' (gyda'r bobl yn defnyddio'r gwasanaethau yn rhan o bob penderfyniad, gan roi cyfle iddynt leisio barn a rheoli'r cymorth byddant yn derbyn). Cam pwysig tuag at fodolau cymorth cydweithredol ble mae'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn rhan o bob penderfyniad.

Mae Cartrefi Cymru yn ystyried y staff a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau fel arbenigwyr. Mae'n gweithredu'n hyblyg wrth ganolbwyntio ar ddymuniadau'r person yn defnyddio'r gwasanaeth, gan addasu'r cymorth mewn ymateb i ddymuniadau ac anghenion yr unigolyn.

Er iddo wynebu gostyngiad yn ei gyllid, wrth ddilyn y drefn newydd llwyddodd Cartrefi Cymru i gynyddu nifer y bobl yn derbyn cymorth a helpu staff i wrando ar eu barn wrth gymryd penderfyniadau.

*"Wrth werthfawrogi cyfraniad staff a defnyddwyr sy'n cydweithio i wireddu canlyniadau positif, rydym yn paratoi'r ffordd ar gyfer menter gydweithredol yn cynnwys sawl rhanddeiliad."*

*Adrian Roper, prif weithredwr Cartrefi Cymru*

*"Rwy'n fwy annibynnol. Nid wy'n ffonio drwy'r amser erbyn hyn."*

*Person yn derbyn cymorth gan Cartrefi Cymru*

Helpodd dull creadigol a chydweithredol Cartrefi Cymru o ddarparu gwasanaethau iddo ennill Enabling State Challenge Award yn 2015. Yn awr, mae'r elusen yn gweithio gydag arbenigwyr cyfreithiol ym maes cydweithredol er mwyn newid o fod yn elusen top-lawr i fenter gydweithredol gwaelod-fyny.

[www.cartrefi.org](http://www.cartrefi.org)

The logo for Cartrefi Cymru features a stylized green 'C' above the text 'cartrefi cymru' in a green, lowercase, sans-serif font.